

CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH
8 GORFFENNAF 2014, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL:		
Cyng D I Roberts, R Edwards, A Evans, N Jones, A Mummery (Cyngor Sir), M Jones (Cyngor Sir), J Evans (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)		
YMDDIHEURIADAU:		
Cyng R Davies		
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb.	
2	DATGAN DIDDORDEB – Dim	
3	DERBYN COFNODION Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 10 Mehefin 2014. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir.	
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION	
4.1	Dol Fraint, Star (Ilwybr) - Mae'r Cyngor Sir yn y broses o gorfodi yr ymgeisydd i gwneud y gwaith	
4.2	Cyflymder Penmynydd - Darllenwyd ebost gan yr Adran Priffyrdd yn dweud nid oes ganddynt ganlyniadau ar hyn o bryd. Mae blwch recordio cyflymder cerbydau I gael éi osod ym Mhenmynydd ac mae ganddynt safle parhaol yng nghanol y pentref. Y bwriad yw paratoi tabl yn cymharu yr holl data cyn ac ar ol y gorchymyn arbrofol. Bydd y Cyngor felly yn anfon y tabl llawn pan fydd yr holl wybodaeth i law yn hytrach nac anfon popeth yn unigol. Dywedodd y Clerc, yn dilyn sgwrs gyda'r sargeant oedd yn bresennol yn y cyfarfod agored bod y mater wedi cael eu trosglwyddo at "Arrive Alive" Dywedodd Cyng R Edwards bod pwyllgor wedi cael ei creu ym Mhenmynydd i drafod y mater yma. Byddai'n well gan y grwp i ddychwelyd y cyflymder i'r terfynau gwreiddiol. Darllenwyd hefyd llythyr gan Mr Owain Evans ar rhan y grwp, wedi ei cyfeirio at y Cyngor Sir yn cofnodi eu pryderon. Penderfynwyd gofyn i'r clerch ysgrifennu at y Cyngor Sir yn dweud nid oes gan y Cyngor Cymuned gwrthwynebiad i'r 50myh pob pen i'r pentref, bod y gorchymyn arbrofol yn ddi pwrpas a gofyn iddynt i atal yr arbrawf.	
4.3	Beinciau - Dywedodd Cyng J Evans bod y cyngor wedi bod yn llwyddianus yn eu cais am gyllid gan yr Ymddiedolaeth Elusennol Ynys Mon. Gofynwyd i'r Clerc trefnu cael prisiau am gosod y beinciau.	
4.4	Torri gwair maes chwarae Star - Mae Mr Rhys Williams wedi gweud y toriad cychwynol. Penderfynwyd symud ymlaen gyda toriadau misol (Gorffennaf - Medi £80 yr un yn cynnwys casglu y gwair).	
4.5	Lon Garnedd Isaf - mae'r clerch yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir	
4.6	BT (polyn) - mae'r Clerc yn disgwyl clywed gan BT	
5	Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon	
	Priffyrdd	
5.1	B5420 Ffordd Penmynydd (gweler 4.2)	
	Llofnod	Cadeirydd 03.09.14

6	Gohebiaeth Ychwanegol
6.1	Canolfan yr Urdd Penmynydd - cais ariannol. Penderfynwyd gofyn am copi o'r cyfrifon cyn gwneud penderfyniad
6.2	Mae'r Clerc wedi derbyn cwyn am cyflwr y llwybr sydd yn mynd i fynny at y "flyover" yn Star. Bydd y mater yn cael ei trosglwyddo at y Cyngor Sir
7	MATERION ARIANNOL
	Penderfynwyd talu rhent y Ganolfan £90.00 (cyfarfodydd y Cyngor)
8	MATERION ERAILL
8.1	Ethol Is-Gadeirydd - nid oedd unrhyw enwebiadau. Felly, bydd angen i aelodau i gylchdroi i gadeirio cyfarfodydd pan fydd y Cadeirydd yn absennol
8.2	Dyddiad y cyfarfod nesaf - penderfynwyd i beidio cynnal cyfarfod mis Awst (dim ond os bydd materion ar frys yn codi)
8.3	Mae Cyng A Mummery wedi derbyn llythyr gan y Cyngor Sir ynglyn a gorchymyn traffig yn Star. Unwaith eto, mae'r Clerc heb derbyn copi. Bydd y Clerc yn dod ar mater at sylw y Cyngor Sir
8.4	
	Llofnod Cadeirydd 03.09.14